**Cofnodion Cyfarfod Arbennig CYNGOR SIR CEREDIGION a gynheliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynhadledda Dydd Iau, 14eg Rhagfyr 2023**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd); Cynghorwyr Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Caryl Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Alun Williams a Carl Worrall.

(2.10pm - 3.15pm)

**Gweithdrefn**

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb I'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Meirion Davies, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Ann Bowen Morgan a John Roberts am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Evans a Matthew Vaux am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod oherwydd eu bod ar ddyletswyddau eraill y Cyngor.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o ddiddordeb.

**3 Materion Personol**

Dim.

**4 EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 5 ar yr agenda, Atodiad B, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso'r Prawf Budd y Cyhoedd, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd a'r wasg yn ystod ar ystyriaeth o eitem 5 isod ar y sail bod y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid, ar sail ystyriaeth, ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r gweddarlledu yn cael ei atal yn ystod eitem 5 isod.

**5 Swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)**

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ac ymateb i gwestiynau a osodwyd i'r ymgeisydd ar y rhestr fer i benodi i swydd wag Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (sydd hefyd yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor). Cafwyd adborth hefyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rhestrau Fer, y Cynghorydd Bryan Davies; Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes a'r Prif Weithredwr.

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd i Ms Audrey Somerton-Edwards.

Ystyriwyd y cyflog a fyddai'n cael ei gynnig. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cynnig y swydd ar y pedwerydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (£90,164) ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad (£7,336) sy'n gyfanswm o £97,500.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd ar gyflog o £97,500, y pedwerydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (£90,164), ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad o £7,336, sy'n gyfanswm o £97,500.

Derbyniodd Ms Audrey Somerton-Edwards y cynnig o swydd, y swydd ar gyflog o £97,500 sydd ar bedwerydd pwynt cynyddrannol graddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad; i gychwyn ar 1 Ionawr 2024, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Yna gwahoddwyd y cyhoedd a'r wasg i ddod i mewn i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Ms Audrey Somerton-Edwards wedi cael cynnig a derbyn y swydd gan ddechrau ar y pedwerydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad; i gychwyn ar 1 Ionawr 2024, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024**

**CADEIRYDD: ______________**